# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 29/07/25 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 29/07/25 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 05/08/25 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo: Cyng. Paul Rowlinson

---

**PWNC - Prydlesu rhan o safle Ysgol Gynradd Y Felinheli yn uniongyrchol i Glwb Chwaraeon Seilo ar gyfer datblygu a rheoli cae chwaraeon synthetig newydd.**

---

**PENDERFYNIAD**

I brydlesu rhan o safle Ysgol Gynradd Y Felinheli (yr 'Ysgol') yn uniongyrchol i Glwb Chwaraeon Seilo (y 'Clwb') am gyfnod o 25 mlynedd er mwyn datblygu cae chwaraeon synthetic er defnydd yr Ysgol, y Clwb a'r gymuned, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gethin Jones (Uwch Syrfëwr Stadau) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 29/7/2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. S. R |

**Pwnc :**

Prydlesu rhan o safle Ysgol Gynradd Y Felinheli yn uniongyrchol i Glwb Chwaraeon Seilo ar gyfer datblygu a rheoli cae chwaraeon synthetig newydd.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brydlesu rhan o safle Ysgol Gynradd Y Felinheli (yr 'Ysgol') yn uniongyrchol i Glwb Chwaraeon Seilo (y 'Clwb') am gyfnod o 25 mlynedd er mwyn datblygu cae chwaraeon synthetic er defnydd yr Ysgol, y Clwb a'r gymuned, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Roedd gallu'r Ysgol i wneud defnydd o'r cae chwarae yn gyfyngedig iawn oherwydd ei gyflwr, ac roedd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol er mwyn uchafu safon y cae.

Sefydlwyd y cwmni dielw Clwb Chwaraeon Seilo ar y cyd gan Glwb Peldroed Ieuenctid Y Felinheli, Clwb Peldroed Merched Y Felinheli a Chlwb Peldroed Y Felinheli oherwydd cydnabuwyd nad oedd cyfleusterau clybiau chwaraeon lleol yn ddigonol ar gyfer cyfarch y gofyn yn lleol, a gwnaethant sefydlu Clwb Chwaraeon Seilo er mwyn uchafu ar y cyfleusterau chwaraeon sydd ar gael yn yr ardal.

Mae cae chwarae'r Ysgol mewn lleoliad canolog yn y pentref, ac adnabyddodd y Clwb y potensial i uchafu ei ddefnydd trwy ymgeisio am arian grant trwy gronfeydd Sefydliad Peldroed Cymru a Grymuso Gwynedd er mwyn datblygu cae synthetig ar

y safle. Roedd y Clwb yn llwyddiannus derbyn cyllideb gan y cronfeydd grant ac wedi gallu symud ymlaen at sicrhau hawl cynllunio a datblygu'r cae newydd, gan sicrhau buddsoddiad cyfalaf o dros £418,000 yn y safle.

Mae ymrwymiad grant Sefydliad Peldroed Cymru yn amodol ar fod y Clwb yn derbyn prydles 25 mlynedd o'r safle, ac fel rhan o'r trefniant, bydd yr Ysgol yn cael defnydd neilltuedig o'r safle yn ystod oriau ysgol. Bydd cymalau penodol i sicrhau fod y Clwb yn cynnal y safle i safon addas ac i warchod defnydd cymunedol o'r safle.

Bydd cynnig prydles yn uniongyrchol i'r Clwb yn gwella cyfleusterau hamdden yr ysgol, creu ased cymunedol er cyfoethogi'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yr ysgol a phlant yr ardal yn ehangach.

Mae'r Ysgol wedi cyd-weithio a'r Clwb wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer y safle. Mae'r Corff Llywodraethol yr Ysgol, yr Adran Addysg, a'r Cyngor Cymuned wedi datgan eu cefnogaeth i'r cais.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod darpariaeth briodol mewn lle gan y Clwb er mwyn sicrhau fod y safle yn cael ei gynnal i'r dyfodol er budd yr Ysgol a'r gymuned.

Nid oes unrhyw fwriad i brydlesu am lai na gwerth marchnad agored.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**
Y dull traddodiadol o sicrhau gwerth gorau am asedau yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yw trwy hysbysebu ar y farchnad agored er mwyn sicrhau'r pris gorau a thryloywder.

Yn achos yr eiddo yma, argymhellir fod yr eiddo yn cael ei osod yn uniongyrchol i'r Clwb er sicrhau buddsoddiad sylweddol yn y ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer disgyblion yr ysgol, clybiau chwaraeon lleol, a'r gymuned leol.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**
Hysbysebwyd rhybudd statudol o dan Adran 123(1)(2A) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar 12/12/2024 a derbyniwyd dim gwrthwynebiad

Corff Llywodraethol yr Ysgol – Wedi cymeradwyo'r telerau arfaethedig y brydles.


Cyngor Cymuned Y Felinheli – Wedi datgelu maent yn gefnogol mewn egwyddor.

Prif Swyddog Cyllid – "Dim gwrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol."

Swyddog Monitro – "Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir a nodaf fod y camau statudol priodol wedi eu dilyn."

Aelod Lleol (Cynghorydd Iwan Huws) - Dim gwrthwynebiad.

Aelod Lleol (Cynghorydd Sasha Williams) - Dim gwrthwynebiad.




**Teitl / Title:**

Part of Ysgol Gynradd Y Felinheli Playing Field, Y Felinheli

**Allwedd / Key:**

Premises

Access Road

**Dyddiad / Date:**

01/07/2025

**Graddfa / Scale @ A4:**

1:1,250

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd